

# Tueddiadau prisio

## gwasanaethau cyfathrebu yn y DU

Cyhoeddwyd 12 Rhagfyr 2023

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg ........................................ 3

Metrigau allweddol ........................................ 7

# Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar dueddiadau prisio ar gyfer gwasanaethau band eang sefydlog preswyl, ffôn symudol, llinell dir a theledu-drwy-dalu yn y DU. Mae'n ymdrin â'r prisiau ar gyfer gwasanaethau unigol ac wedi'u bwndelu, a'r hyn y mae cwsmeriaid yn ei dalu am y gwasanaethau hyn. Mae hefyd yn edrych ar fforddadwyedd, dyled ac ymgysylltu â defnyddwyr.

Cyflawnwyd y dadansoddiad yn erbyn cefndir o argyfwng costau byw parhaus, gyda chwyddiant yn parhau ar lefel uchel yn 2023, a llawer o ddarparwyr blaenllaw yn codi prisiau rhai cwsmeriaid presennol yn uwch na chwyddiant.

Yn gyffredinol, rydym wedi gweld bod prisiau, ar gyfer rhai cwsmeriaid newydd a chwsmeriaid presennol ill dau, wedi codi yn 2023. Fodd bynnag, mae'r farchnad yn parhau i fod yn gystadleuol ac mae bargeinion da i'w cael o hyd i'r rhai sy'n siopa o gwmpas. Ceir dewis yn y farchnad, a gall llawer o gwsmeriaid arbed arian drwy newid i ddarparwr newydd neu fargeinio gyda'u darparwr presennol.

Mae Ofcom wedi gweithio i ddileu rhwystrau i gwsmeriaid ddod o hyd i'r fargen orau bosibl a sicrhau y gall pobl lywio'r farchnad yn hyderus, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr a bod cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Ofcom yn ymgynghori ar gynigion i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr nodi pris eu gwasanaethau drwy gydol y contract, yn glir ac yn derfynol ac mewn punnoedd a cheiniogau, pan fydd cwsmeriaid yn ymrwymo i fargen newydd.[1]

Er i ni gynnwys rhywfaint o ddata gwariant cwsmeriaid presennol a gasglwyd gan ddarparwyr cyfathrebu i'w ddefnyddio yn yr adroddiad hwn, mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata tariffau h.y. prisiau sydd ar gael i gwsmeriaid newydd ar wefannau darparwyr. Cyfeirir at y prisiau cwsmeriaid newydd hyn weithiau fel prisiau "llyfr blaen" (o gymharu â'r prisiau "llyfr cefn" a godir ar gwsmeriaid presennol).

Mae'r rhan fwyaf o'r data a gyflwynir wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio ffigurau Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS. Trwy ddefnyddio prisiau termau real, cyflwynir y ffigurau mewn ffordd sy'n dileu effaith chwyddiant uchel. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd gwneud hyn yn cuddio cynnydd sylweddol mewn prisiau sy'n is na lefelau chwyddiant. Er enghraifft, byddai cynnydd enwol mawr (heb ei addasu) ym mhris gwasanaeth yn ymddangos fel gostyngiad bach mewn termau real (wedi'i addasu) pe bai'r cynnydd enwol yn is na chyfraddau chwyddiant sy'n cael eu profi ar hyn o bryd.

Rydym wedi cynnwys ffigurau real ac enwol mewn rhai o'r siartiau yn yr adroddiad hwn ac wedi eu hychwanegu at ddangosfwrdd rhyngweithiol yr ydym wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

[1] Ofcom, Telerau codi prisiau'n unol â chwyddiant o fewn contractau – cynigion ar gyfer rheolau a chanllawiau newydd

## Ein canfyddiadau – yn gryno

**Yn gyffredinol:**

- **Golygodd fformiwlâu prisiau chwyddiant a mwy fod rhai cwsmeriaid wedi profi cynnydd mawr mewn prisiau yn 2023.** Cymhwysodd llawer o ddarparwyr telathrebu sefydlog a symudol mwyaf y DU gynnydd chwyddiant a mwy mewn prisiau blynyddol (gan amlaf, y gyfradd CPI ynghyd â 3.9% wedi'i chymhwyso yn y gwanwyn bob blwyddyn), ac o ganlyniad i'r lefelau chwyddiant annormal o uchel ar ddiwedd 2022/dechrau 2023 roedd rhai cwsmeriaid presennol yn wynebu cynnydd o dros 10% yn eu prisiau; y cynnydd uchaf mewn prisiau oedd y 17.3% a gyflwynwyd gan O2 a Virgin Mobile. Mae'n bosib y bydd prisiau'n cael eu codi'n unol â chwyddiant eto yn ystod contractau yng ngwanwyn 2024. Dengys ymchwil gan Ofcom yr oedd tua thraean o aelwydydd y DU (cyfanswm o fwy na wyth miliwn a hanner) yn ei chael hi'n anodd fforddio eu gwasanaethau cyfathrebu ym mis Hydref 2023.[2]

- **Cododd prisiau cwsmeriaid newydd hefyd ar gyfraddau uwch na chwyddiant ar gyfer band eang sefydlog safonol a chyflym iawn.** Yn wahanol i 2022, cododd prisiau i gwsmeriaid newydd am fand eang safonol a chyflym iawn mewn termau real hefyd yn 2023. Roedd y cynnydd mewn prisiau band eang gwibgyswllt i gwsmeriaid newydd yn is na chyfradd chwyddiant, felly gostyngodd prisiau mewn termau real.

- **Fodd bynnag, mae prisiau band eang a symudol cyfartalog wedi gostwng mewn termau real dros y pum mlynedd diwethaf.** Gostyngodd prisiau hyrwyddo ar gyfer gwibgyswllt 15% a gostyngodd prisiau rhestr ar gyfer cyflym iawn 13%. Gostyngodd prisiau rhestr a hyrwyddo cyfartalog ar gyfer bwndeli band eang safonol dwy ran 5% a 9% yn y drefn honno. Gostyngodd pris cyfartalog gwasanaethau symudol, ac eithrio costau setiau llaw, 33% mewn termau real yn y pum mlynedd hyd at 2023, er gwaetha'r ffaith y cododd y defnydd cyfartalog o ddata 249% dros y cyfnod hwn.

**Bwndeli a band eang:**

- **Fel arfer mae'n rhatach i bobl sydd â band eang sefydlog brynu eu gwasanaethau fel rhan o fwndel, yn hytrach nag yn unigol.** Dengys ein dadansoddiad o 'fasgedi' nodweddiadol o wasanaethau cyfathrebu a brynir gan aelwydydd y gallai'r rhai sydd â chysylltiad band eang sefydlog arbed rhwng 17% a 34% wrth brynu gwasanaethau wedi'u bwndelu (os oes angen llinell dir arnynt hefyd).

- **Mae mwy o gwsmeriaid yn arbed arian drwy newid i dariff cymdeithasol.** Mae tariffau cymdeithasol sy'n cynnig gwasanaeth pris is i'r rhai ar fudd-daliadau cymwys ar gael gan lawer o ddarparwyr. Cynyddodd y nifer sy'n manteisio ar dariffau cymdeithasol sefydlog a symudol yn sylweddol i 380,000 o aelwydydd ym mis Hydref 2023 (o 220,000 ym mis Chwefror) felly mae llawer mwy o gwsmeriaid bellach yn elwa ar yr arbedion a'r amddiffyniadau y mae'r rhain yn eu cynnig. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth ohonynt a nifer y cwsmeriaid cymwys sy'n manteisio arnynt yn parhau i fod yn her. Nid oedd ychydig dros hanner (55%) yr aelwydydd cymwys ym mis Hydref 2023 yn ymwybodol o dariffau cymdeithasol, ac er bod y nifer sy'n manteisio arnynt yn codi, mae'n parhau i fod yn isel fel cyfran o aelwydydd cymwys (8.3%). Mae'r tariffau band eang sefydlog cymdeithasol a oedd ar gael ym mis Hydref 2023 yn costio rhwng £12 a £23 y mis (llawer llai na chynhyrchion masnachol tebyg).

- **Mae band eang sefydlog ar ei ben ei hun yn opsiwn rhatach i'r rhai nad oes angen gwasanaeth llinell dir arnynt**. Ym mis Medi 2023, roedd prisiau rhestr a phrisiau hyrwyddo misol cyfartalog

[2] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/affordability-tracker

ar gyfer gwasanaethau band eang sefydlog ar ei ben ei hun 14% a 15% yn rhatach, yn y drefn honno, na’r prisiau rhestr a phrisiau hyrwyddo cyfartalog ar gyfer band eang sefydlog wedi’u bwndelu â llinell dir.

- **Gall band eang gwibgyswllt fod yn rhatach o ddarparwyr llai eu maint**. Mae'r prisiau a gynigir gan ddarparwyr rhwydweithiau ffeibr llawn annibynnol y DU yn aml yn is na'r rhai a gynigir gan ddarparwyr band eang sefydlog sefydledig. Roedd darparwyr ffeibr llawn llai yn cynnig gwasanaethau band eang 900 Mbit yr eiliad neu 1 Gbit yr eiliad am rhwng £25 a £50 y mis ym mis Hydref 2023, sy'n sylweddol llai na'r £50-£60 am wasanaethau tebyg gan ddarparwyr mwy eu maint.

**Llinell dir:**

- **Roedd prisiau llinell dir yn sefydlog neu'n llai mewn termau real yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2023**. Parhaodd prisiau rhent llinell dir cyfartalog yn sefydlog mewn termau real yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2023 (cynnydd o 6% mewn termau enwol) a bu ostyngiad mewn prisiau bwndeli galwadau a galwadau y tu allan i'r bwndel mewn termau real yn ystod y cyfnod hwn.

**Symudol:**

- **Roedd prisiau symudol ar sail proffil defnyddiwr cyfartalog (h.y. basged sy'n seiliedig ar ddefnydd cyfartalog o ddata a llais) heb eu newid mewn termau real, er gwaethaf defnydd cynyddol o ddata**. Roedd cost fisol gyfartalog gwasanaeth symudol (ac eithrio cost y ffôn), yn seiliedig ar ddefnydd cyfartalog ar draws yr holl ddefnyddwyr symudol yn 2023, heb ei newid mewn termau real yn y flwyddyn hyd at Ch2 2023 o'i gymharu â phrisiau cyfartalog yn 2022 (roedd 2% yn is mewn termau enwol). Roedd hyn er gwaethaf cynnydd amcangyfrifedig o 1.6 GB (23%) yn y defnydd misol cyfartalog o ddata. Prisiau symudol y DU oedd yr ail rataf (ar ôl Ffrainc) yn Ch3 2023 ymysg y chwe gwlad gymharu a ddadansoddwyd gennym - ac roeddent yn is nag yn Yr Almaen, Yr Eidal, Sbaen a'r Unol Daleithiau.
- **Bu cynnydd mawr mewn prisiau tariffau SIM yn unig sy'n cynnig rhwng 1 a 10 GB o ddata cynhwysol**. Dengys ein dadansoddiad i brisiau hyrwyddo misol cyfartalog ar gyfer y gwasanaethau hyn godi 23% mewn termau real yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2023. Nid cynnydd ym mhrisiau tariffau unigol oedd prif symbylyddion y cynnydd hwn, ond y ffaith bod nifer o ddarparwyr cost is wedi rhoi’r gorau i gynnig gwasanaethau, bod rhai gwasanaethau â lwfans data is yn cael eu dileu, a bod rhai newydd a drutach, gyda lwfansau data cynhwysol mwy, wedi'u lansio.
- **Mae tariffau sy'n cynnwys amser awyr a ffôn fel arfer yn costio mwy na phrynu ffôn yn llwyr.** Roedd tariffau symudol talu'n fisol sy'n cynnwys amser awyr a ffôn (naill ai mewn contract cyfunol neu gontract dwy ran) yn cyfrif am 37% o'r holl danysgrifiadau symudol yn Ch2 2023. Dengys ein dadansoddiad, ar gyfartaledd, y bu'n 23% yn rhatach i brynu ffôn ar wahân a'i ddefnyddio gyda chynllun SIM yn unig ar draws y cysylltiadau symudol y gwnaethom edrych arnynt. Mae llawer o ddarparwyr symudol wedi rhoi’r gorau i gynnig contractau ffôn ac amser awyr cyfunedig o blaid contractau dyfais a gwasanaeth ar wahân (wedi'u rhannu).
- **Mae premiwm pris ar gyfer cysylltedd 5G ar ragdalu.** Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau rhagdalu bellach yn wasanaethau hybrid sy'n galluogi i gwsmeriaid brynu pecyn gyda galwadau, negeseuon testun a data cynhwysol sydd fel arfer yn dod i ben ar ôl mis. O ganlyniad i argaeledd tariffau hybrid rhad roedd rhagdalu'n rhatach ar gyfartaledd ar gyfer y tri chysylltiad â gofyniad data is (5 GB/mis neu lai) a oedd wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad; fodd bynnag, roedd talu'n fisol yn rhatach ar gyfer y tri phroffil defnydd uwch (yn bennaf am fod angen y cysylltiadau hyn angen cysylltedd 5G, sydd fel arfer yn ddrutach ar ragdalu).

**Teledu-drwy-dalu a fideo ar-alw drwy danysgrifiad (SVoD)**

- **Mae rhai gwasanaethau SVoD wedi bod yn destun cynnydd mewn prisiau sy'n uwch na chwyddiant**. Er mai Apple TV+ oedd yr unig wasanaeth SVoD mawr yn y DU i godi ei bris yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2023, cyflwynodd Netflix, Disney+ ac Apple TV+ i gyd godiadau pris uwchlaw chwyddiant yn Ch4 2023.

# Metrigau allweddol

